**PWYLLGOR TRWYDDEDU**
**8 TACHWEDD 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Iau, 8 Tachwedd 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Glyn Banks, Adele Davies-Cooke, Rob Davies, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Brian Lloyd a Ralph Small

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Mike Reece a Martin White

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Rheolwr Gwarchod Cymunedau a Busnesau; Arweinydd y Tîm Trwyddedu, Cyfreithiwr a'r Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd

**10. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni dderbyniwyd dim.

**11. COFNODION**

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2018 wedi eu dosbarthu gyda'r rhaglen.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**12. DEDDF GAMBLO 2005 ADOLYGIAD O DDATGANIAD POLISI GAMBLO**

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu Adolygiad o Ddatganiad Polisi Gamblo Deddf Gamblo 2005 oedd yn darparu copi o'r polisi drafft oedd allan i ymgynghoriad.

Byddai'r polisi newydd angen dechrau ar 31 Ionawr 2019 yn unol â'r Ddeddf.

O ran y polisi, a sut y byddai'r Cyngor yn cyflawni'r swyddogaethau, mae'n rhaid i'r polisi gynnwys amcanion ar y canlynol:

- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell o drosedd ac anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod gamblo'n cael ei wneud yn deg ac yn agored; ac
- Amddiffyn plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag niwed neu gamfanteisio drwy gamblo.

Mae'n rhaid i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r polisi a gallai bara am gyfnod o dair blynedd. Mae'n rhaid ymgynghori gyda'r canlynol cyn ei gymeradwyo:

- Yr Heddlu;
- Yr Awdurdod Tân;
- Un neu ddau o bobl sy’n ymddangos i’r Awdurdod eu bod yn cynrychioli budd unigolion sy’n cynnal busnesau gamblo yn ardal yr Awdurdod; ac
- Un neu fwy o bobl oedd yn ymddangos i’r Awdurdod eu bod yn cynrychioli budd unigolion sy’n debyg o gael eu heffeithio gan arferion swyddogaethau'r Awdurdod o dan y Ddeddf.

Mynegodd y Cynghorydd Banks ei bryder am 3.3.6 o’r polisi oedd yn atgyfeirio at bobl ddiamddiffyn a theimlodd nad oedd yna ddigon o amddiffyniad iddynt. Eglurodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu mai cyfrifoldeb pob lleoliad oedd cynnal eu hasesiadau risg eu hunain yn seiliedig ar weithdrefnau’r Cyngor; ni ellir eu pennu ond gellir eu cyfeirio i gyfeiriad Gamcare.

Mewn ymateb i ymrwymiad pellach gan y Cynghorydd Banks, eglurodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu bod yr uchafswm betio arian ar gyfer peiriannau gemau’n cael eu pennu gan y Llywodraeth. Ychwanegodd y Cyfreithiwr os na chaiff y polisi ei gymeradwyo y byddai risg o adolygiad barnwrol gan fod y polisi yn seiliedig ar gyfraith y DU.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 13. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o’r cyhoedd na’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 10.15 am)

..................................................

**Cadeirydd**